

Yr Adran Materion Gwledig

Mae gwybodaeth am y cyhoeddiad hwn a chopïau pellach ar gael gan:

Y Tîm Lles Anifeiliaid Fferm
Swyddfa'r Prif Swyddog Milfeddygol
Llywodraeth Cynulliad Cymru

Adeiladau'r Llywodraeth
Hill House
Caerfyrddin
SA31 3BS

Ffôn: 01267 225300

E-bost: livestockwelfare@wales.gsi.gov.uk



Llywodraeth Cynulliad Cymru
Welsh Assembly Government

LLES ANIFEILIAID WRTH EU CLUDO – NODIADAU CYFARWYDDYD

RHEOLIAD (EC) RHIF 1/2005 Y CYNGOR AR DDIOGELU ANIFEILIAID WRTH EU CLUDO A GWEITHREDIADAU CYSYLLTIEDIG A GORCHYMYN LLES ANIFEILIAID (CLUDO) CYMRU 2007

MANYLEB CERBYDAU FFORDD a THRELARS a CHANLLAWIAU ar eu HADEILADWAITH a'u DEFNYDD

DA BYW (Anifeiliaid Fferm) (Gwartheg, Defaid, Geifr a Moch Domestig).

Rheoliad 1/2005 yr UE (Erthygl 3 ac Atodiad I).

NODIADAU

- Rhaid i gerbydau a threlars a ddefnyddir ar gyfer pob taith gydymffurfio â RHAN 1 (Atodiad I, Pennod II).
- Rhaid i gerbydau a threlars a ddefnyddir ar gyfer teithiau hir hefyd gydymffurfio â RHAN 2 (Atodiad I Pennod VI).
- Rhaid i gerbydau a threlars a ddefnyddir ar gyfer teithiau hir gael eu harchwilio a'u cymeradwyo (dilys am hyd at 5 mlynedd) o flaen llaw gan Awdurdod Cymwys (Erthyglau 7 ac 18).
- Diffinnir taith hir (Erthygl 2(m)) fel un sy'n parhau mwy nag 8 awr ar ôl symud (h.y. llwytho) yr anifail cyntaf.
- Diffinnir cerbyd (Erthygl 2 (z)) fel math o gludiant ar olwynion sy'n cael ei yrru ymlaen neu ei dynnu.
- Crynodeb o'r geiriau cyfreithiol yn y rheoliad yw'r gofynion Rheoliad 1/2005 yn y tabl isod a dylech bob amser ddarllen y rheoliad.
- Rhoddir canllawiau ar adeiladwaith a defnydd er mwyn helpu i roi'r Rheoliad ar waith yn ymarferol ac yn gyson.

- Dylid darllen y canllawiau hyn ar y cyd â rhan 1 y canllawiau hyn. Mae Rhan 1 yn cynnwys manylion rhanddirymiaidau cyfyngedig o rai o ofynion y Rheoliad.

RHAN 1 – POB CERBYD A THRELAR

Eitem	Erthygl 3 ac Atodiad I	Gofynion 'Sylfaenol' Rheoliad 1/2005	Canllawiau ar Adeiladu a Defnyddio
Cyffredinol	Erthygl 3	Ni chaniateir i unrhyw un gludo anifeiliaid neu achosi i anifeiliaid gael eu cludo mewn modd sy'n debygol o achosi anaf neu ddioddefaint diangen iddynt.	Darpariaeth gyffredinol ar gyfer 'diogelu lles anifeiliaid' sydd hefyd yn ei gwneud hi'n ofynnol defnyddio dull cludo addas a chyfleusterau llwytho a dadlwytho addas a rhoi digon o le i anifeiliaid ar y llawr ac uwch eu pennau.
Dylunio Adeiladu Cynnal a Chadw	Erthygl 3 (c) Pennod II 1.1 (a)	Wedi'u dylunio, eu hadeiladu, eu cynnal a'u cadw a'u gweithredu er mwyn osgoi anaf a dioddefaint a sicrhau diogelwch yr anifeiliaid.	Wedi'i ddylunio i safon uchel gan ddefnyddio deunyddiau a dulliau addas. Cynnal a chadw mewn cyflwr strwythurol a mecanyddol da.
Cryfder	Pennod II 1.1 (d)	Gallu gwrthsefyll pwysau symudiadau	Rhaid bod y lloriau, ochrau, rhaniadau, to a gosodiadau yn ddigon cryf i ddal yr anifeiliaid sydd i'w cludo, a gwrthsefyll pwysau llwytho/dadlwytho, cludo a thrafod anifeiliaid.
Diogelwch	Pennod II 1.1 (a) Pennod II 1.1 (d) Pennod III 1.4 (b)	Sicrhau diogelwch yr anifeiliaid. Atal anifeiliaid rhag dianc neu gwympo. Rhwystrau i atal anifeiliaid rhag cwmpo wrth lwytho/dadlwytho.	Dim ymylon miniog, pethau sy'n ymestyn allan a bylchau a allai anafu anifeiliaid. Adran ddiogel ar gyfer yr anifeiliaid heb bosibilrwydd y gallant ddianc. Rhwystrau i atal anifeiliaid rhag cwmpo pan fo'r drws llwytho ar agor.

Mynediad	Pennod II 1.1 (f)	I anifeiliaid er mwyn eu harchwilio a gofalu amdanynt.	Gallu mynd i mewn i adran yr anifeiliaid pan fo'r cerbyd yn llonydd er mwyn gweld pob anifail a rhoi gofal priodol iddo. Gellir cael mynediad trwy'r prif ddrws llwytho ond argymhellir bod drws archwilio ar wahân ar gyfer pob llawr neu haen.
To	Pennod II 1.1 (b)	Diogelu rhag tywydd garw, tymereddau eithafol, newidiadau andwyol yn yr hinsawdd.	Ni nodir to solet, fel y cyfryw, ond ystyrir ei fod yn angenrheidiol er mwyn diogelu anifeiliaid yn erbyn unrhyw dywydd andwyol posibl.
Llawr	Pennod II 1.1 (g) Pennod II 1.1 (h)	Wyneb gwrth-lithro. Gofalu bod cyn lleied â phosibl o wrin a thail anifeiliaid yn gollwng.	Digon cryf i ddal pwysau'r anifeiliaid. Rhaid sicrhau nad oes 'perygion', rhwystrau ac ati ar y llawr. Gellir darparu wyneb gwrth-lithro ar ffurf platiau siecr, estyll traed, gorchudd digonol o dywod neu ddeunydd cyffelyb, neu fatin parhaol neu dros dro. Wrth ofalu bod cyn lleied â phosibl o wrin a thail anifeiliaid yn gollwng, nid oes raid i'r llawr ddal dŵr yn llwyr.
Draenio		Dim gofyniad.	Dylid cadw'r lloriau mor sych â phosibl. Gorau oll os gall unrhyw hylif lifo i sŷmp neu danc.
Ochrau / Y ddau ben	Pennod II 1.1 (b)	Diogelu rhag tywydd garw, tymheredd eithafol, newidiadau andwyol yn yr hinsawdd.	Digon caeëdig i ddiogelu rhag y tywydd ac atal anifeiliaid rhag dianc. Digon cryf i ddal pwysau'r anifeiliaid.
Awyru	Pennod II 1.1 (e)	Sicrhau bod digon o aer, a hwnnw o	Awyru digonol ar gyfer sefyllfaoedd

	Pennod III 2.6	ansawdd priodol. Awyru digonol ar gyfer y nifer o anifeiliaid ac amodau tywydd.	'eithriadol' – e.e. pan fo cerbyd yn llonydd mewn tywydd poeth. Ni nodir maint, lleoliad na nifer y tyllau awyru. Dylid addasu cyfran gogyfer ag amodau tywydd gwahanol.
Maint / gofod / uchder y tu mewn	Erthygl 3 (g) Pennod II 1.2	Digon o arwynebedd llawr ac uchder fel sy'n addas i'r anifeiliaid a'r daith. Digon uchel i awyru uwch eu pennau wrth iddynt sefyll, heb eu rhwystro rhag symud yn naturiol.	Digon o le i'r anifeiliaid sefyll yn gyfforddus a'u pennau i fyny. Digon o le uwch eu pennau i'r aer lifo. Arwynebedd llawr – gweler 'Faint o le i'w neilltuo'.
Faint o le i'w neilltuo	Pennod III 2.1 Pennod VII	Neilltuwch o leiaf yr arwynebedd llawr canlynol i bob anifail. <u>Gwartheg a lloi</u> -Lloi bach (50kg) - 0.30m ² i 0.40m ² - Lloi canolig eu maint (110kg) - 0.40m ² i 0.70m ² - Lloi trwm (200kg) - 0.70m ² i 0.95m ² - Gwartheg canolig eu maint (325kg) - 0.95m ² i 1.30m ² - Gwartheg trwm (550kg) - 1.30m ² i 1.60m ² - Gwartheg trwm iawn (>700kg) - >1.60m ² <u>Defaid a geifr</u> Defaid ac ŵyn wedi'u cneifio sy'n 26kg a throsodd - <55kg 0.20m ² i 0.30m ² - >55kg > i 0.30m ² Defaid heb eu cneifio - <55kg 0.30m ² i 0.40m ²	Nodir arwynebedd llawr gofynnol mewn m ² i bob anifail. Ond mae'r rheoliad yn caniatáu amrywio'r ffigurau trwy roi'r datganiadau canlynol: <u>Gwartheg a lloi</u> – Gall y ffigurau hyn amrywio, yn dibynnu nid yn unig ar bwysau a maint yr anifail ond hefyd ei gyflwr corfforol, y tywydd a hyd amser tebygol y daith. <u>Defaid a Geifr</u> – Gall yr arwynebedd a ddynodir amrywio, yn dibynnu ar frîd, maint, cyflwr corfforol a hyd cnu yr anifeiliaid, yn ogystal â'r tywydd a hyd amser y daith. Er enghraifft: ar gyfer ŵyn bach, gellir darparu arwynebedd o lai na 0.20m ² i bob anifail. <u>Moch</u> – Rhaid i bob mochyn allu gorwedd a sefyll yn gyfforddus o leiaf. I gydymffurfio â'r gofynion hyn, ni ddylai dwysedd llwytho moch

		<p>- >55kg > i 0.40m² Mamogiaid yn drwm o wŷn - <55kg 0.40m² i 0.50m² - > 55kg > i 0.50m² Geifr - <35kg 0.20m² i 0.30m² - 35kg to 55kg 0.30m² i 0.40m² - >55kg >0.40m² i 0.75m² Geifr yn drwm o fynnod - <55kg 0.40m² i 0.50m²</p> <p><u>Moch</u> Ni roddir tabl.</p>	<p>oddeutu 100kg fod dros 235kg/m². Gallai brîd, maint a chyflwr corfforol y moch olygu bod angen cynyddu'r arwynebedd llawr; gallai fod angen cynyddu hyd at 20% hefyd yn dibynnu ar y tywydd a hyd amser y daith.</p>
Maint lloc		Ni roddir cyfyngiadau o ran maint	<p>Dylid cyfyngu ar hyd y lloc er mwyn lleihau effeithiau newid sydyn yng nghyflymder y cerbyd ac i reoli nifer yr anifeiliaid mewn grŵp. Argymhellir cadw hyd llociau o fewn y terfynau a fu mewn grym ers 1975 – 2.5m ar gyfer lloi, 3.1m ar gyfer defaid, geifr a moch a 3.7m ar gyfer gwartheg llawndwf.</p>
Rhaniadau	Pennod II 1.4	Digon cryf i wrthsefyll pwysau'r anifeiliaid. Gosodiadau wedi'u dylunio i weithio'n gyflym a hwylus.	<p>Dylid defnyddio rhaniadau digon uchel, dwfn a chryf fel sydd angen i wahanu anifeiliaid unigol neu grwpiau o anifeiliaid. Dylent allu cynnal pwysau'r anifail a'i atal rhag symud gormod. Dylai rhaniadau atal anifeiliaid mewn llociau cyffiniol rhag cnoi, cicio neu anafu ei gilydd mewn ffyrdd eraill. Dylai dyluniady rhaniadau ei gwneud hi'n bosibl hefyd i ddigon o aer lifo trwy'r cerbyd.</p>
Cyfleusterau	Pennod II 2.2	Rhaid cario cyfarpar addas i lwytho a	Fel rheol dylai fod ramp neu lwyfan codi

Ilwytho/dadlwytho (Ramp)	Pennod III 1.3 (a) Pennod III 1.4 (a)	dadlwytho anifeiliaid. Wynebaw gwrth-lithro. Estyll traed, neu gyffelyb, os yw'r ramp yn serthach na 10°00.	wedi'i osod ar y cerbyd a rhaid i'r cyfarpar hwn fod yn addas i'r diben. Er hynny, mae'n dderbyniol llwytho a dadlwytho nifer cyfyngedig o anifeiliaid bach ar gerbydau bach drwy eu cario, os gellir gwneud hynny'n hwylus, cyhyd â bod lles yr anifeiliaid yr un mor ddiogel.
Onglau rampiau (cerbydau a gafodd eu hadeiladu ar ôl Ionawr 2007)	Pennod III 1.4 (a)	Ramp heb fod yn serthach na: 20°00 (36.4% o lethr) ar gyfer moch a lloi, yn cyfateb i oleddf o 4 dros bellter o 11. 26° 34' (50.0% o lethr) ar gyfer defaid a gwartheg, yn cyfateb i oleddf o 4 dros bellter o 8. .	Gellir cynnwys gris (hyd at 20cm) ar waelod neu ar frig y ramp er mwyn lleihau ongl y llethr – ond ni argymhellir gwneud hynny, yn enwedig ar gyfer anifeiliaid ifanc. Cydnabyddir ei bod hi'n anodd mesur ongl llethr ramp yn fanwl gywir, yn enwedig pan fo'r cerbyd ar dir anwastad, felly dylech ganiatáu +/- 5°.
Onglau rampiau (cerbydau mewn defnydd cyn Ionawr 2007)		Ramp heb fod yn serthach na 29° 4' (57%), yn cyfateb i oleddf o 4 dros bellter o 7. Argymhellir na ddylai'r llethr fod yn fwy na: 25° ar gyfer gwartheg; 20° ar gyfer moch.	Os yw'n anymarferol neu'n aneconomaidd o ran manteision lles i drawsnewid cerbydau a threlars a gafodd eu hadeiladu a'u defnyddio cyn 5 Ionawr 2007 a'u bod yn cydymffurfio â Gorchymyn Lles Anifeiliaid (Cludo) 1997 fel y'i diwygiwyd, gallwch barhau i'w defnyddio yn y DU tan 4 Ionawr 2012.
Gatiau ochr rampiau	Pennod III 1.3 (a)	Gatiau ochr i atal anifeiliaid rhag dianc.	Dylai gatiau ar ochr rampiau fod yn ddigon uchel i atal anifeiliaid rhag cwmpo neu neidio oddi ar y ramp wrth eu llwytho a'u dadlwytho.
Llwyfan codi	Pennod III 1.4 (b)	Rhaid bod rhwystrau diogelwch ar lwyfan codi os oes un wedi'i osod.	Dylai rhwystrau fod yn ddigon uchel i atal anifeiliaid rhag cael eu hanafu neu rhag cwmpo neu neidio oddi ar y llwyfan wrth eu

			llwytho a'u dadlwytho.
Goleuo	Pennod II 1.1 (i) Pennod III 1.6	Er mwyn archwilio anifeiliaid a gofalu amdanynt wrth eu cludo. Wrth lwytho a dadlwytho.	Goleuadau parhaol os oes modd, ond gallwch ddefnyddio rhai symudol. Dylech osod neu orchuddio gosodiadau, ceblau ac ati fel na all anifeiliaid ymyrryd â nhw.
Clymu	Pennod III 1.11	Os ydych chi'n clymu anifeiliaid, dylai'r rhaffau/tenynnau fod yn ddigon cryf, a hawdd i'w datod, gan gadael i'r anifail orwedd a bwyta ac yfed os oes angen. Ni ddylech glymu anifeiliaid gerfydd eu cynn neu fodrwyau trwyn.	
Sarn	Pennod II 1.5	Sarn addas neu ddeunydd cyffelyb i sicrhau bod yr anifail yn gyfforddus, â digon ohono i sugno wrin a thail anifeiliaid.	Gofynnol ar gyfer moch bach o dan 10kg, ŵyn o dan 20kg a lloi iau na 6 mis yn unig. Argymhellir rhoi deunydd addas arall dros lawr diorchudd os nad ydych yn rhoi sarn dan anifeiliaid hŷn.
Arwydd	Pennod II 2.1	Arwydd clir a gweladwy ar y cerbyd i ddynodi presenoldeb anifeiliaid byw.	Byddai enw cwmni fel 'Cludiant Da Byw John Jones' yn ddigon.
Glanhau a Diheintio	Pennod II 1.1 (c) Pennod III 1.3 (b)	Dylid gallu glanhau a diheintio'r cerbyd, y cyfarpar a'r cyfleusterau llwytho/dadlwytho.	Gall y Rheolau Iechyd Anifeiliaid ei gwneud hi'n ofynnol i lanhau a/neu ddiheintio cyn llwytho anifeiliaid, ac ar ôl eu dadlwytho.
Defnyddio llongau gyrru mewn ac allan (RO-RO)	Pennod II 3.2	Digon o fachau diogelu addas. Rhaid bachu'r cerbyd wrth y llong i'w atal rhag symud.	Ond yn angenrheidiol os yw'r cerbyd i'w gario ar long RO-RO. Rhaid i fachau diogelu fod yn ddigon cryf ac o ddyluniad addas i dderbyn cyfarpar y llong.

RHAN 2 – GOFYNION YCHWANEGOL AR GYFER CERBYDAU A THRELARS AR DEITHIAU DROS 8 AWR

Eitem	Atodiad I	Gofynion 'Ychwanegol' Rheoliad 1/2005	Canllawiau ar gyfer Adeiladwaith a defnydd
To	Pennod VI 1.1	To o liw golau wedi'i insiwleiddio'n briodol.	Y bwriad yw sicrhau nad yw pelydrau'r haul yn cynhesu anifeiliaid ac insiwleiddio yn erbyn newidiadau sylweddol yn y tymheredd allanol. Ni roddir gwerth thermol ar gyfer insiwleiddio, ac ni fanylir ynghylch 'lliw golau'.
Rhaniadau	Pennod VI 1.6 Pennod II 1.7 Pennod II 1.8	Rhaniadau i ffurfio 'rhannau ar wahân' fel bod dŵr o fewn cyrraedd rhydd i bob anifail. Posibl gosod rhaniadau mewn mannau gwahanol fel bod modd addasu maint y rhannau yn ôl yr angen.	Rhaid defnyddio rhaniadau sy'n ddigon uchel, dwfn a chryf i ffurfio llociau a gwahanu anifeiliaid yn ôl yr angen. Rhaid bod modd addasu hyd lloc trwy symud neu dynnu o leiaf un rhaniad yn ôl rhywogaeth, maint a nifer yr anifeiliaid sy'n cael eu cludo. Rhaid bod modd cynnig dŵr i bob anifail yn ôl yr angen, a gall y trefniadau hyn gynnwys dulliau symudol.
*Systemau awyru a ffaniau	Pennod VI 3.1 Pennod VI 3.2	Wedi'u dylunio i gynnal gwres o 5°C – 30°C (+/-5°C) tu mewn pan fo'r cerbyd yn symud neu'n llonydd. Isafswm pŵer o 60m ³ /awr/KN o'r llwyth llawn. Gallu rhedeg am o leiaf 4 awr heb yr injan.	Mae llif aer a dulliau effeithiol o awyru cerbydau da byw yn bwnc cymhleth. Argymhellir eich bod yn gofyn am gyngor arbenigol. Bydd angen awyru trwy ddefnyddio ffan er mwyn cynhyrchu'r llif aer angenrheidiol. Ond dylai fod hefyd yn bosibl awyru'r cerbyd mewn argyfwng drwy agoriadau os yw'r ffan yn torri neu fod toriad yn y cyflenwad pŵer. Os yn briodol, dylech osod ffan(iau) sy'n cyflenwi neu'n gwacáu aer mewn man addas

			<p>yn ôl lleoliad yr agoriadau naturiol i greu llif aer cyson trwy ran yr anifeiliaid o'r cerbyd er mwyn cael gwared yn effeithiol ar wres a lleithder a gynhyrchir gan yr anifeiliaid.</p> <p>Isafswm pŵer o 60m³/awr/KN = 600M³/h/tunnell.</p> <p>Dylech gymryd mai 'llwyth llawn' yw cyfanswm pwysau'r anifeiliaid y gallai'r cerbyd eu cario'n gyfreithlon, gan ystyried pwysau gros y cerbyd ynghyd â faint o le i'w neilltuo.</p>
*Monitor tymheredd	Pennod VI 3.3	System monitro tymheredd gan leoli synwryddion lle mae'r amgylchedd salaf i'r anifeiliaid, cofnodi tymheredd gyda dyddiad ac amser.	<p><u>Synwryddion</u></p> <p>Mae tymheredd uchel yn fwy o her i les anifeiliaid na thymheredd isel. Mae tymheredd yn fwy tebygol o fod yn uwch pan fo'r cerbyd yn llonydd. Yn gyffredinol bydd y tymheredd ar ei uchaf yn agos at y to a thuag at flaen y cerbyd pan fo'n symyd. Bydd faint o synwryddion sy'n addas a lle i'w gosod yn dibynnu ar ddyluniad y cerbyd a'i faint a'r nifer o anifeiliaid sy'n cael eu cludo. Argymhellir monitro'r tymheredd 'yn barhaol' ond ni ddylai fod bwlch o fwy na 15 munud rhwng y mesuriadau.</p> <p><u>Cofnodydd Data</u></p> <p>Yr awgrym yw y dylai'r synwryddion drosglwyddo darlleniadau mesuriadau tymheredd i'r Cofnodydd Data, ac y dylai hwnnw fod ar y cerbyd os oes modd. Dylai gofnodi'r tymheredd, rhif neu leoliad y synwrydd, a dyddiad ac amser pob</p>

			darlleniad. Rhaid i ddata a gofnodir fod ar gael i'r Awdurdod Cymwys (Archwilydd) pan fo gofyn amdano. Gallai hyn olygu unrhyw adeg wrth gludo'r anifeiliaid, neu wedi cwblhau'r daith. Ond nid oes unrhyw ddarpariaeth sy'n gofyn am gadw Cofnodion Data unwaith y bydd y daith wedi'i chwblhau. Argymhellir eich bod yn cadw cofnodion am o leiaf 3 blynedd wedi cwblhau'r daith os yw'n ofynnol i chi gadw log o'r daith.
*Rhybudd tymheredd	Pennod VI 3.4	System rybuddio i dynnu sylw'r gyrrwr pan fo'r tymheredd yn cyrraedd y terfynau uchaf/isaf.	Dylai synwryddion drosglwyddo unrhyw ddarlleniad tymheredd sydd y tu hwnt i'r terfynau i ddyfais rybuddio. Yr awgrym yw y dylai'r gyrrwr allu gweld neu glywed y 'rhybydd'
*System lywio	Pennod VI 4.1	System yn gallu darparu a chofnodi gwybodaeth fel sy'n ofynnol yn Log y Daith ac agor/cau y fflap llwytho. Gofynnol ar gyfer pob cerbyd 'newydd mewn defnydd' o 01/01/07 ymlaen. Gofynnol ar gyfer pob cerbyd o 01/01/2009.	Diffinnir System Lywio (erthygl 2 (o)) fel 'rhwydweithiau yn seiliedig ar loerennau sy'n darparu gwasanaethau amseru a lleoli byd-eang, parhaol, cywir wedi'u gwarantu, neu unrhyw dechnoleg sy'n darparu gwasanaethau a ystyrir yn gyffelyb.' Nid yw Comisiwn a Chyngor yr UE wedi pennu manyleb lawn ar gyfer Systemau Llywio a fydd yn manylu ar yr hyn sy'n rhaid iddynt ei gyflawni ac mae'n annhebygol o allu gwneud hynny cyn 2010. Yn y cyfamser, cyfarpar sylfaenol yn unig sydd angen i gludwyr ei osod, a bydd hwn yn: - Adnabod y cerbyd sy'n cael ei fonitro. - Sefydlu lleoliad y cerbyd ar unrhyw adeg o'r

			<p>man llwytho, wrth symud (efallai bob 15 neu 30 neu 60 munud) a phob tro y mae'n stopio tan iddo gael ei ddadlwytho.</p> <ul style="list-style-type: none"> - Galluogi i beth data arall gael ei fwydo i mewn â llaw fel agor a chau'r fflap llwytho. - Cofnodi'r data naill ai mewn uned yn y cerbyd a/neu drwy ei drosglwyddo i uned ganolog a storio'r data'n electronig am 3 blynedd.
--	--	--	---

*Nid yw Comisiwn yr UE wedi cytuno'n derfynol ar ystodau tymheredd a gofynion cofnodi data tymheredd a dehongli systemau llywio, a gallai fod peth amrywio arnynt yn y dyfodol.

Dŵr a system ddyfrio	<p>Pennod VI 2.1</p> <p>Pennod VI 2.2</p> <p>Pennod VI 2.3</p>	<p>Cyflenwad dŵr fel bod modd i ofalwr ddarparu dŵr ar unwaith pan fo angen. Dyfeisiadau dyfrio o ddyluniad addas ac wedi'u gosod fel bod pob anifail o fewn cyrraedd i ddŵr. Cario cyflenwad o ddŵr sydd 1.5% o'r llwyth llawn. Gallu i archwilio lefel y dŵr yn y tanc, a'i wacáu a'i lanhau wedi'r daith.</p>	<p>Lle nad yw'n ymarferol cynnal cysylltiad parhaol rhwng y tanc dŵr a'r dyfeisiadau yfed, rhaid bod modd i'r gofalwr ddarparu dŵr yn hwylus i'r anifeiliaid pan fo angen. Fel rheol argymhellir eich bod yn diffodd y cyflenwad dŵr tra bo'r cerbyd yn symud rhag i'r dŵr orlifo/gael ei wastraffu a rhag i'r anifeiliaid orfod sefyll mewn gwlybanaeth.</p> <p>Dylid cymryd mai 'llwyth llawn' yw cyfanswm pwysau'r anifeiliaid y gallai'r cerbyd eu cario'n gyfreithlon, gan ystyried pwysau gros y cerbyd ynghyd â faint o le i'w neilltuo.</p>
Gofynion dŵr penodol ar gyfer moch ar deithiau pell	<p>Pennod V 1.4 (b)</p>	<p>Gellir cludo moch am gyfnod o hyd at 24 awr. Yn ystod y daith rhaid fod dŵr o fewn cyrraedd iddynt trwy gydol yr amser.</p>	<p>Ni ystyrir bod hyn yn cynnig manteision lles. Gall arwain at wastraff, anifeiliaid yn sefyll mewn gwlybanaeth a pherygl o lithro.</p>

Porthiant	Pennod VI 1.3	Dylid cario digon o borthiant priodol ar gyfer y daith, a'i ddiogelu rhag y tywydd a halogion.	Dylai fod digon o borthiant ar gael ar gyfer y daith gyfan. Os oes angen, gellir ail-lwytho porthiant yn ystod y daith mewn manau addas wedi'u trefnu o flaen llaw.
Cyfarpar Bwydo	Pennod VI 1.4 Pennod VI 1.5	Cario cyfarpar bwydo addas yn y cerbyd pan fo angen. Wedi'i gysylltu wrth y cerbyd os oes angen i'w atal rhag troi. Dylid storio'r porthiant ar wahân i'r anifeiliaid pan fo'r cerbyd yn symud a phan nad yw'r cyfarpar yn cael ei ddefnyddio.	
Sarn	Pennod VI 1.2	Sarn neu ddeunydd cyffelyb addas i'r anifeiliaid – rhaid iddo allu sugno digon o wrin a thail anifeiliaid.	
Faint o le i'w neilltuo	Pennod III 2.1 Pennod VII A	Cydymffurfio â ffigurau pennod VII o leiaf. Gweler rhan 1 uchod.	
Cyfyngiadau	Pennod VI 1.9	Ar deithiau hir, dylai lloi fod dros 14 diwrnod oed a moch yn drymach na 10kg ac eithrio lle cânt eu cludo gyda'u mamau.	